

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

20 Mawrth 2019

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

Ymunodd y Cynghorydd Mrs D Clements â'r cyfarfod yn ystod cyhoeddiadau'r Cadeirydd (*gweler Cofnod 4 isod*).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.15p.m.)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Mrs J James a'r Cynghorydd P Kidney.

2. Datgan Buddiannau

Dywedodd yr Aelodau a enwir isod bod ganddynt fuddiant yn yr adroddiadau canlynol, gan adael y cyfarfod pan drafodwyd y materion:

Dywedodd y Cynghorydd M Evans bod ganddo fuddiant personol yn yr eitem ar ymestyn Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod (*gweler Cofnod 9 isod*).

Dywedodd y Cynghorydd M Williams bod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem oedd yn ymwneud â chais yr RNLI i ymgymryd â gweithgareddau codi arian ar draethau'r Parc Cenedlaethol (*gweler Cofnod 10 isod*).

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30^{ain} o Ionawr 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Gan gyfeirio at Gofnod 8 (Oriel y Parc – Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Amgueddfa Cymru), dywedodd Dr R Heath-Davies ei bod wedi gofyn am eglurhad gan Mr Ashley McAvoy o Amgueddfa Cymru – er ei bod o'r farn bod y cytundeb yn gytundeb strategol ac o bwys rhwng y ddau sefydliad – na fyddai'r cytundeb yn arwain at yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn clymu ei hun i Amgueddfa Cymru yn unig. Roedd Mr McAvoy wedi cadarnhau yn y cyfarfod na fyddai hyn yn wir, a dymunodd Dr Heath-Davies i'r eglurhad pwysig hwn gael ei gofnodi yn y cofnodion.



PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30^{ain} o Ionawr 2019 cyn belled â bod y newid uchod yn cael ei gynnwys.

4. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Gadeirydd, wedi mynychu cyfarfod cynhyrchiol o bwyllgor gwaith Parciau Cenedlaethol Cymru ar 19 Mawrth 2019. Hefyd roedd wedi mynychu cinio Gŵyl Dewi a gynhaliwyd gan Faer Tyddewi, lle'r oedd wedi cyfarfod ag Uchel Gomisiynydd Lesotho, oedd yn awyddus i weithio gyda'r Awdurdod.

NODWYD.

5. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019.

6. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019 i'w ystyried.

Gan gyfeirio at Gofnod 9 (Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2018), dywedodd Dr R Heath-Davies bod y cyfeiriad at "...ostyngiad yn genedlaethol yn nifer yr ymwelwyr i amgueddfeydd / orielau..." yn y trydydd paragraff yn anghywir gan ei bod hi wedi awgrymu y gallai'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Chastell Henllys gael ei briodoli o bosibl i'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Sain Ffagan yn dilyn y buddsoddiad sylweddol a wnaed yn ddiweddar i wella'r cyfleusterau yn Amgueddfa Werin Cymru.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

7. Rheoli meysydd parcio cyhoeddus yn Amroth, West Angle a Nolton Haven

Dywedodd y Cadeirydd bod cynrychiolwyr o Gyngorau Cymuned Amroth, Angle a Nolton a'r Garn yn arsylwi'r ddadl, ac estynnodd groeso iddynt i'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn nodi cysylltiad uniongyrchol yr Awdurdod â'r meysydd parcio yn Amroth, West Angle a Nolton Haven o'r adeg y daethant i feddiant yr Awdurdod yn y 1960au i'r datblygu a'r rheoli y dyddiau hyn fel cyfleusterau parcio i'r cyhoedd. Hyd yn hyn, roedd parcio yn y tri maes parcio yn rhad ac am



ddim i'r cyhoedd, ond atgoffodd y Swyddog Ystadau yr Aelodau eu bod wedi penderfynu fis Tachwedd 2018 i gyflwyno taliadau parcio o fis Mawrth 2020, yn amodol ar ddilyn y broses statudol ofynnol, oedd ar waith ar hyn o bryd.

Ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, roedd Cynghorau Cymuned Amroth, Angle a Nolton a'r Garn wedi cysylltu â'r Awdurdod i fynegi eu diddordeb mewn rheoli'r meysydd parcio eu hunain (yn achos Amroth ac Angle drwy Drosoglwyddo Asedau Cymunedol), ac roedd y manylion hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Wrth drafod cynigion y Cynghorau Cymuned, gofynnodd y Swyddog Ystadau i'r Aelodau ystyried yr ystyriaethau perthnasol canlynol:

- Ni fyddai cyflwyno taliadau parcio tymhorol yn arwain at gollu llefydd parcio na llai o wasanaeth, ac ni fyddai ychwaith yn peri unrhyw berygl i'r meysydd parcio gael eu gwerthu yn y dyfodol. Felly, ni ystyriwyd bod Trosoglwyddo Asedau Cymunedol yn opsiwn perthnasol;
- Roedd yr Awdurdod wedi cynnal y meysydd parcio am dros hanner canrif ac wedi rheoli defnydd y modurwr ohonynt dros yr un cyfnod estynedig;
- Roedd gan yr Awdurdod y gallu a'r adnoddau i gynnal yr un lefel o wasanaeth y tu hwnt i fis Mawrth 2020;
- Nid oedd yr Awdurdod yn chwilio am bartneriaid na gweithredwyr trydydd parti i reoli unrhyw un, neu bob un, o'i feysydd parcio sy'n codi tâl;
- Byddai'r bwriad i godi tâl o fis Mawrth 2020 yn cynyddu'r nifer o feysydd parcio yr Awdurdod sy'n codi tâl o ddeg i bedwar ar ddeg, a
- Roedd manteision y defnydd i'r modurwr, a'r telerau a'r pwyntiau prisiau ar gyfer y defnydd hwnnw, bellach yn gyson ac wedi'u safoni ar draws pob safle yr Awdurdod sy'n codi tâl.

Holodd rhai Aelodau a ddylid cyflwyno tâl parcio o gwbl gan eu bod yn ymwybodol o'r effaith y byddai hynny yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Roeddent yn dadlau y dylai'r Awdurdod ddychwelyd at ei egwyddorion craidd a hybu adnoddau cynaliadwy y busnesau lleol. Cyfeiriwyd ganddynt at y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau, fyddai'n cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod, sef cynllun oedd yn cyfeirio at yr Awdurdod yn gweithio law yn llaw â chymunedau, gan eu hannog i ymgysylltu'n fwy â'r Awdurdod, a gwaredu unrhyw rwystrau oedd yn atal cymunedau rhag mwynhau'r Parc Cenedlaethol. Roeddent yn derbyn bod y penderfyniad i godi tâl ym meysydd parcio Amroth, West Angle a Nolton Haven wedi'i wneud yn y gorffennol ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ond anogwyd eu cyd Aelodau i ymchwilio ymhellach i'r mater a gweithio gyda'r cymunedau dan sylw.



Atebodd y Swyddog Ystadau bod ail ystyried penderfyniad yr Awdurdod i godi tâl yn y tri maes parcio dan sylw yn codi'r cwestiwn ehangach a ddylai'r Awdurdod fod yn codi tâl yn unrhyw un o'i feysydd parcio. Dywedodd bod yr holl incwm a gynhyrchwyd yn mynd i gronfa gyllid ganolog, a bod yr Aelodau wedyn yn penderfynu sut i wario'r arian hwnnw. Barnai y byddai unrhyw benderfyniad a wneir ar un safle yn cael effaith ar bortffolio ehangach yr Awdurdod.

Cyfeiriodd Aelodau eraill at y ffaith bod meysydd parcio a chodi tâl wedi bod yn fater dan ystyriaeth ers nifer o flynyddoedd a bod y papur hwn yn benllanw cyn cytuno ar y Gorchymyn Meysydd Parcio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd angen i'r Aelodau gofio diben cyffredinol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a bod yr incwm sy'n deillio o feysydd parcio yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei waith. Roeddent o'r farn bod llawer o feddwl wedi cael ei roi i drin preswylwyr, ymwelwyr, ac ati, yn gyfartal a chynnig consesiynau, a rhaid oedd taro cydbwysedd. Hefyd barnwyd bod angen peidio â gwaredu asedau'r Awdurdod gan eu bod yn gymorth i reoli traffig.

PENDERFYNWYD peidio â derbyn diddordeb y Cynghorau Cymuned i redeg y gwasanaethau parcio cyhoeddus yn Amroth, Angle a Nolton Haven.

8. Y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2019/20

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft ar gyfer 2019/20 wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2019. Roedd y sylwadau a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw wedi'u hystyried ac roedd y Cynllun drafft wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori fis Chwefror. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau allanol, er bod rhai mân newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn sylwadau ac adborth gan staff ac Aelodau.

Llongyfarchodd y Cynghorydd P Harries y Swyddog ar Gynllun ardderchog, hawdd ei ddarllen, er iddo awgrymu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar yr arfordir, yn enwedig gan mai'r glannau – yn ei farn ef – oedd pwynt gwerthu unigryw'r Awdurdod. Atebodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod cyfeiriad at fywyd morol wedi cael ei wneud yn y cyd-destun byd-eang, er y byddai'n edrych eto ar y mater hwn yn y dyfodol.

Awgrymodd Dr R Heath-Davies rai newidiadau i'r adran Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, lle dylai'r Awdurdod geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol; byddai angen trafod rhai camau yn hyn o beth. Yn ogystal, gofynnodd a ddylai'r Awdurdod ddod yn fwy digidol yn ei ffyrdd o weithio ac awgrymodd y dylai'r Aelodau ystyried y ffordd yr oeddent yn gweithio er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd.



Hefyd awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid cyfeirio at Bwyllgor Safonau'r Awdurdod yn yr adran llywodraethu.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019/20 yn amodol ar yr awgrymiadau a wnaed yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.

9. Ymestyn Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod

Ers cyflwyno Deddf Amwynderau Dinesig 1967, mae cyfanswm o 500 o Ardaloedd Cadwraeth wedi'u dynodi ar hyd a lled Cymru, ac mae 14 o'r ardaloedd hyn yn y Parc Cenedlaethol. Mae Ardal Gadwraeth yn cynnwys adeiladau rhestredig ac adeiladau heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad mawr i'r amgylchedd hanesyddol, ac mae'r 14 Ardal yn cynnwys yr aneddiadau o bwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol mwyaf yn y Parc Cenedlaethol ac yn adnodd allweddol a phenodol.

Roedd pob ardal, gan gynnwys eu ffiniau, yn cael eu hadolygu yn rheolaidd o dan raglen Ardal Gadwraeth, a Dinbych-y-pysgod oedd yr un olaf i'w hadolygu. Roedd yr estyniad arfaethedig i'r ffin bresennol, fel y nodwyd yn yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, yn ganlyniad prosiect ar y cyd rhwng yr Awdurdod a gweithgor a ddewiswyd yn arbennig gan Gyngor Tref Dinbych-y-pysgod, gan gynnwys aelodau o Gymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod. Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r broses o ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd, a'r lefel o ymateb a gafwyd o ganlyniad; nid oedd yr un o'r ymatebion yn negyddol.

Dywedodd y Swyddog Cadwraeth Adeiladau bod Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod a Chymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod, ers ysgrifennu ei adroddiad, wedi cadarnhau'r estyniad arfaethedig i'r ffin.

PENDERFYNWYD:

- (a) bod y ffin a adolygwyd fel y nodwyd ar y map oedd ynghlwm wrth yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn cael ei diwygio yn ffurfiol;
- (b) bod y data sylfaenol ar y mapiau a'r anodi yn cael eu diweddarau yn unol â hynny, a
- (c) bod hysbysiadau statudol yn cael eu rhoi yn y wasg leol ac yn y London Gazette.

10. Cais gan yr RNLI i ymgymryd â gweithgareddau codi arian ar draethau'r Parc Cenedlaethol

Dywedwyd bod yr RNLI wedi cael caniatâd penodol, yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus yn 2008, i godi arian ar nifer fach o draethau a reolir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Barnwyd bod presenoldeb staff yr RNLI, a'r cyngor a roddir ganddynt ar fwynhau'r traethau yn ddiogel, yn chwarae rhan bwysig o ran cynnal enw da traethau Sir Benfro fel rhai glân a



diogel. Hefyd roedd eu presenoldeb yn golygu llai o gostau staff achub bywyd i sefydliadau partner megis Cyngor Sir Penfro.

Roedd yr RNLI yn awr yn ceisio caniatâd i ymestyn eu gweithgareddau presennol ar y traethau i gynnwys timau codi arian o ddau aelod o staff ar fynedfeydd i draeth Niwgwl, Aberllydan, Nolton Haven, Traeth Mawr, Traeth Trefdraeth a Thraeth Poppit rhwng 01 Mai a 07 Medi 2019.

Roedd y mwyafrif o'r Aelodau yn cefnogi'r egwyddor o gael presenoldeb diogel ar draethau, er bod rhai Aelodau'n pryderu bod sefydliadau eraill tebyg allai hefyd elwa o'r un 'breintiau'. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, atebodd y swyddogion – petai cais yr RNLI yn cael ei dderbyn – y byddent yn cael eu hannog i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol a'i ddibenion, ac i ddarparu llenyddiaeth ddwyieithog, os nad presenoldeb dwyieithog.

Mynegwyd pryder bod uned RNLI wedi ei gadael ar un traeth am 6-8 wythnos ar ddiwedd y tymor. Atebodd swyddogion y byddent yn codi'r mater gyda'r sefydliad i sicrhau na fyddai'n digwydd eto yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd i barhau gweithgareddau codi arian yr RNLI am bum mlynedd arall (hyd at fis Medi 2024), cyn belled ag y derbynnir yr amodau canlynol:

- (a) bod gweithgareddau codi arian yr RNLI yn cael eu cyfyngu i 28 diwrnod ar unrhyw un safle;
- (b) bod yr holl lenyddiaeth hyrwyddo a diogelwch a ddarperir gan yr RNLI yn ddwyieithog, a
- (c) bod staff yr RNLI sy'n ymwneud â chodi arian yn cario llenyddiaeth hyrwyddo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn derbyn hyfforddiant gan Dîm Darganfod yr Awdurdod fel rhan o'u cyfnod sefydlu ffurfiol i hyrwyddo defnydd diogel o'r Parc Cenedlaethol.

11. Calendr cyfarfodydd 2019/20

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr cyfredol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2019, yn dilyn y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol. Cyflwynwyd calendr felly ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i'w gymeradwyo. Dywedwyd bod y dyddiad cau cyfrifon yr Awdurdod wedi ei ddwyn ymlaen o ganlyniad i newidiadau yn y rheoliadau, gan arwain at yr angen i alw cyfarfod o'r Awdurdod fis Gorffennaf o hyn ymlaen fel y gellid cwrdd â'r dyddiad cau newydd hwn.

Yn ogystal, ac mewn ymateb i geisiadau gan Aelodau, ni threfnwyd unrhyw gyfarfodydd yn ystod mis Awst.

PENDERFYNWYD bod y calendr o gyfarfodydd yn 2019/20 yn cael ei gymeradwyo.



12. Digwyddiadau corfforaethol

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny yr oedd Aelodau'r Awdurdod yn cael gwahoddiad iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar bresenoldeb yn y digwyddiadau hyn. Gan fod nifer o'r Aelodau yn absennol y diwrnod hwnnw, byddai manylion y digwyddiadau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod i roi cyfle i bawb oedd â diddordeb ymateb.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Aelodau i fynychu'r digwyddiadau fel a ganlyn:

- (a) Cyrsiau Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 12-14 Mawrth 2019 ac Awdurdod Parc Cenedlaethol y Peak District rhwng 10-13 Medi 2019 (Aelodau newydd neu'r rhai nad oeddent wedi cael cyfle i fynychu Cwrs Sefydlu);
- (b) Cynhadledd Cynllunio Cymru ar 06 Mehefin 2019 (un Aelod);
- (c) Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU yn Skipton, Yorkshire Dales ar 17-19 Medi 2019 (4 Aelod);
- (d) Cynhadledd Europarc ym Mharc Cenedlaethol Kemer, Latfia ar 24-27 Medi 2019 (hyd at 2 Aelod);
- (e) Seminar Blynyddol i Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 12-13 Tachwedd 2019 (pob Aelod), a
- (f) Cynhadledd y WLGA, y dyddiad a'r lleoliad i'w cadarnhau (hyd at 2 Aelod).

13. Tâl Aelodau 2019/20

Dywedwyd bod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi'i gyhoeddi fis Chwefror 2019. Roedd darnau perthnasol o'r adroddiad wedi'u hatodi i adroddiad y Swyddog, a rhoddwyd crynodeb o'r prif newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol Aelodau am y flwyddyn ariannol 2019/20 fel a ganlyn:

- cynnydd o £60 yn y Cyflog Sylfaenol i 'Aelodau cyffredin' o £3,675 i £3,735 y flwyddyn;
- dim cynnydd yn yr Uwch Gyflog sy'n daladwy i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ac i (hyd at ddau) Gadeirydd Pwyllgor arall, ond byddai'r deiliaid swyddi hyn yn derbyn y codiad yn y Cyflog Sylfaenol a delir i 'Aelodau cyffredin' gan arwain at dalu:
 - £12,435 y flwyddyn i Gadeirydd yr Awdurdod



- £7,435 y flwyddyn o Uwch Gyflog Lefel 1, a
- £6,135 y flwyddyn o Uwch Gyflog Lefel 2.

Byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar 01 Ebrill 2019.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r ffioedd sy'n daladwy i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, nac i lefel y cyfraddau teithio a chynhaliaeth. Nid oedd unrhyw newid ychwaith yn lefel yr ad-daliad o gostau gofal i Aelodau.

Roedd hawl gan yr Awdurdod i dalu Uwch Gyflog i hyd at bedair swydd (Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â dau Gadeirydd Pwyllgor). Roedd tair swydd ar hyn o bryd yn derbyn uwch gyflog: swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Roedd yr Uwch Gyflog sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd i swyddi Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor yr un fath (Lefel 2), er bod y Panel wedi dod i'r casgliad y gallai'r Awdurdod benderfynu ar ba lefel o ddwy lefel y gellid talu'r swyddi hyn.

Felly gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi sy'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog yn 2019/20; pa lefel o gydnabyddiaeth ddylai fod yn daladwy i swyddi Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd neu Gadeiryddion Pwyllgor; a hefyd y nifer mwyaf o ddyddiau mewn unrhyw flwyddyn y gellid talu Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

Roedd yr Aelodau yn hapus â'r swyddi oedd yn gymwys ar hyn o bryd i dderbyn Uwch Gyflog a'r lefel o gyflog a delir i'r deiliaid swyddi hynny.

PENDERFYNWYD:

- nodu Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20;
- talau Uwch Gyflog i'r swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu;
- bod yr Uwch Gyflog lefel 2 yn daladwy i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu; a
- bod y nifer uchaf o ddiwrnodau y gallai Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol gael eu talu mewn unrhyw flwyddyn yn parhau ar 4 diwrnod y flwyddyn.

14. Penodi swyddogion

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc a'r Swyddog Monitro wedi nodi eu dymuniad i ymddiswyddo o'r Awdurdod. Gan fod y ddwy swydd yn benodiadau gan Aelodau, roedd angen i'r Awdurdod ystyried yn y lle cyntaf a oeddent yn dymuno llenwi'r swyddi gwag ac, os felly, y broses y dylid ei dilyn i wneud



hynny. Dywedodd bod y Pwyllgor Personél wedi'i ddefnyddio i'r perwyl hwn i lenwi swyddi gwag yn y gorffennol.

Dywedodd bod sawl opsiwn ar gael o ran llenwi swydd y Swyddog Monitro a, gyda chytundeb yr Aelodau, y byddai'n ymdrin â'r rhain yn y lle cyntaf.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- (a) llenwi swydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc a'r swydd Swyddog Monitro;
- (b) awdurdodi'r Pwyllgor Personél i ymgymryd â'r broses benodi;
- (c) yn achos penodi Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc, bod Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn rhan o'r broses benodi, ac
- (d) yn achos penodi Swyddog Monitro, bod y Prif Weithredwr yn archwilio'r opsiynau a fanylwyd yn y cyfarfod.

(Gadawodd y Cyngorydd M Evans y cyfarfod yr adeg hon).

15. Eitem frys

PENDERFYNWYD oherwydd amgylchiadau arbennig, bod yr eitemau canlynol yn cael eu codi fel mater o frys, yn unol ag Adran 100(B)(4)(b) o Deddf Llywodraeth Leol 1972.

16. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD y dylai'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygolrwydd y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

17. Caffi Oriol y Parc

Ystyriodd yr Aelodau gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr ynghylch masnachfaint y caffi yn Oriol Tirluniau a Chanolfan Ymwelwyr Oriol y Parc.

Yn dilyn trafodaeth faith, **PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Prif Weithredwr a/neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd, i ddatrys y mater yn unol â'r telerau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

